Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Mehefin 2013

# Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26.89: Balotau ar gyfer Biliau arfaethedig Aelod

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

2. Mae'r adroddiad yn argymell diwygiadau i Reol Sefydlog 26.89. Mae'r newidiadau y cytunodd y Pwyllgor Busnes arnynt i'w gweld yn Atodiad A, ac mae'r cynnig ar gyfer Rheol Sefydlog newydd i'w weld yn Atodiad B.

## Cefndir

3. Yn ei gyfarfod ar 21 Mai, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur a oedd yn amlinellu'r dewisiadau ar gyfer diwygio Rheol Sefydlog 26.89 mewn perthynas â'r broses o gynnal balotau ar gyfer Biliau arfaethedig Aelod.

4. Ar ôl rhoi cyfle i'r Rheolwyr Busnes ymgynghori ag Aelodau, trafododd y Pwyllgor Busnes y mater unwaith eto yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin.

## Y darpariaethau presennol

5. O dan Reol Sefydlog 26.89 fel y mae ar hyn o bryd, mae gan Aelodau a fu'n llwyddiannus mewn balot blaenorol ar gyfer Bil yr hawl i gael eu cynnwys mewn balot eto, ar yr amod na wnaeth y Cynulliad gytuno y gallent gyflwyno Bil i weithredu eu cynnig blaenorol. Mae hyn yn wahanol i'r darpariaethau a oedd ar waith yn y Trydydd Cynulliad, pan na châi unrhyw Aelod a oedd wedi ennill y balot o'r blaen yn y Cynulliad hwnnw wneud cais i gael ei gynnwys yn y balot eto, ni waeth a roddwyd caniatâd iddo gyflwyno Bil ai peidio.

6. Newidiwyd darpariaethau'r Trydydd Cynulliad yn dilyn nifer o falotau pan na chyflwynwyd unrhyw gynigion, ac argymhellodd y Pwyllgor Busnes y dylid gohirio'r Rheolau Sefydlog perthnasol am weddill y Trydydd Cynulliad i alluogi Aelodau i gael eu cynnwys mewn balot eto.

7. Yn sgîl hynny, ystyriwyd y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â balotau ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig Aelodau fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r Rheolau Sefydlog a gynhaliwyd ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad, ac fe'u diwygiwyd i atal Aelodau rhag cael eu cynnwys unwaith eto mewn balot os rhoddwyd caniatâd iddynt o'r blaen i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod (sef Bil arfaethedig Aelod erbyn hyn). Felly, rhoddwyd caniatâd i Aelodau a oedd wedi ennill balot o'r blaen, ond nad oeddent wedi cael caniatâd i gyflwyno deddfwriaeth, gael eu cynnwys yn y balot eto.

## Cynigion ar gyfer newid y drefn

8. Ar 24 Ebrill 2013, cafodd Darren Millar ei ddewis yn y balot gyda'i gynnig ynghylch Bil Meysydd Carafannau Gwyliau. Hwn oedd yr ail dro i Darren Millar gael ei ddewis yn y balot Biliau, gan iddo gael ei ddewis yn y balot a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2012.

9. Ar ôl i bryderon gael eu mynegi y gallai darpariaethau presennol y Rheolau Sefydlog fod yn annheg i Aelodau nad ydynt yn cael eu dewis, tra bo modd i Aelodau eraill gael eu dewis fwy nag unwaith, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried y broses.

10. Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried tri dewis, gan gynnwys peidio â newid y trefniadau o gwbl, a rhyw fath o Reol Sefydlog gyfunol sy'n

galluogi Aelod i gael ei gynnwys eto mewn balot, ond dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig, cyn penderfynu y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog i ddileu'n gyfan gwbl y posibilrwydd y gallai Aelodau gael eu dewis fwy nag unwaith.

## Penderfyniad

11. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ar 11 Mehefin, a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i nodir yn Atodiad B.

## Atodiad A

**RHEOL SEFYDLOG 26**

| **Biliau Aelod** | |
|---|---|
| 26.85 Mae Rheolau Sefydlog 26.86 i 26.94 yn gymwys i Filiau Aelod yn unig. | **Nid oes angen diwygio’r Rheol Sefydlog hon.** |
| 26.86 [*Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Cynulliad ar 16 Tachwedd 2011]* | |
| 26.87 O bryd i’w gilydd, rhaid i’r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o’r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod. | **Nid oes angen diwygio’r Rheol Sefydlog hon.** |
| 26.88 Rhaid i’r Llywydd gynnwys yn y balot enwau’r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys ac sydd wedi cyflwyno’r wybodaeth cyn y balot sy’n angenrheidiol o dan Reol Sefydlog 26.90. | **Nid oes angen diwygio’r Rheol Sefydlog hon.** |
| ~~26.89 Ni chaiff Aelod sydd wedi cael cytundeb i gyflwyno Bil Aelod o’r blaen yn y Cynulliad hwnnw wneud cais i gael ei gynnwys yn y balot.~~<br><br>26.89 Ni chaiff Aelod sydd wedi ennill y balot o’r blaen yn y Cynulliad hwnnw wneud cais o’r fath. | **Diwygio’r Rheol Sefydlog hon.**<br><br>Dileu’r Rheol Sefydlog bresennol a rhoi Rheol Sefydlog newydd yn ei lle sy’n atal Aelod rhag cael ei gynnwys mewn balot eto os cafodd ei ddewis mewn balot o’r blaen. Byddai hyn yn peri i’r Rheolau Sefydlog gyd-fynd unwaith eto â’r rhai a oedd ar waith yn y Trydydd Cynulliad. |

| | |
|---|---|
| | Fel yn y Trydydd Cynulliad, mae'n bosibl y gallai'r dewis hwn beri i'r Rheol Sefydlog gael ei beirniadu gan yr Aelodau os na chyflwynir unrhyw gynigion ar gyfer balot. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o ystyried nifer y cynigion a gaiff eu cynnwys yn y balot. |

## Atodiad B

## RHEOL SEFYDLOG 26

### Bil Aelod

26.85 Mae Rheolau Sefydlog 26.86 i 26.94 yn gymwys i Filiau Aelod yn unig.

26.86 [*Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Cynulliad ar 16 Tachwedd 2011]*

26.87 O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod.

26.88 Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y balot enwau'r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys ac sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth cyn y balot sy'n angenrheidiol o dan Reol Sefydlog 26.90.

26.89 Ni chaiff Aelod sydd wedi ennill y balot o'r blaen yn y Cynulliad hwnnw wneud cais o'r fath.